# Hysbysiad preifatrwydd i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd

## Pwy ydyn ni?

Estyn ydyn ni. Rydyn ni'n ymweld ag ysgolion yng Nghymru i weld pa mor dda ydyn nhw ac i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y profiad dysgu gorau.

## Beth mae'r daflen hon yn sôn amdano?

Mae'r daflen hon yn esbonio beth rydyn ni'n ei wneud gydag unrhyw wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chasglu amdanat ti pan fyddwn ni'n ymweld â dy ysgol a sut rydyn ni'n cadw'r wybodaeth yn ddiogel.

## Beth yw gwybodaeth bersonol?

Gwybodaeth amdanat ti yw gwybodaeth bersonol, er enghraifft dy enw, dy oedran a dy farn am dy ysgol.

## Pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu?

Efallai byddwn ni'n siarad â ti neu'n gofyn rhai cwestiynau am dy ysgol. Does dim rhaid i ti ateb, ond os byddi di, byddwn yn defnyddio'r  wybodaeth honno i'n helpu i ysgrifennu am dy ysgol.

Gallen ni ofyn am bethau fel:

- Enw dy ysgol.
- Dy farn di am yr ysgol.
- Dy enw (ond does dim rhaid i ti ei roi i ni).
- Cyfeiriad y cyfrifiadur rwyt i'n ei ddefnyddio i ateb cwestiynau.
- P'un a wyt ti'n fachgen, yn ferch, y ddau, neu ddim un o'r ddau.
- Gwybodaeth am dy iechyd.

## Pam rydyn ni'n casglu'r wybodaeth hon?

Rydyn ni'n casglu'r wybodaeth hon oherwydd rhan o'n gwaith ni yw rhoi gwybod i bobl pa mor dda yw dy ysgol di, a sut gall fod yn well fyth.

## Sut rydyn ni'n cadw dy wybodaeth yn ddiogel?

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod dy wybodaeth yn ddiogel ac yn ei chadw dan glo ar ein cyfrifiaduron.

## Beth rydyn ni'n ei wneud gyda dy wybodaeth?

Rydyn ni'n defnyddio dy wybodaeth i:

- Ysgrifennu adroddiadau am dy ysgol a sut mae plant eraill yn dy ysgol yn teimlo am dy ysgol.
- Rhoi dy atebion gydag atebion plant eraill i weld a yw ysgolion eraill yng Nghymru fel dy ysgol di.

## Pa mor hir fyddwn ni'n cadw dy wybodaeth?

Os byddwn ni'n ysgrifennu pethau wrth siarad gyda ti, byddwn ni'n taflu'r nodiadau i'r bin ar ôl ni adael dy ysgol.
Byddwn ni'n cadw dy atebion i'n cwestiynau ar gyfrifiaduron am 15 mlynedd cyn eu dileu, ond ni fydd neb yn gwybod mai ti roddodd yr atebion hynny i ni.

## A ydyn ni'n rhannu dy wybodaeth di gyda rhywun arall?

Fyddwn ni ddim yn rhannu dy wybodaeth bersonol di gyda rhywun arall oni bai dy fod ti'n dweud wrthon ni fod rhywun yn cael ei frifo, neu gallai gael ei frifo. Os felly, efallai bydd angen i ni ddweud wrth rywun sy'n gallu helpu.

Efallai byddwn ni'n rhannu rhai o'r pethau ddywedaist ti am dy ysgol gyda dy athrawon neu bobl eraill, ond ni fyddwn yn dweud mai ti ddywedodd y pethau hyn. Pan fyddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gyda phobl eraill, byddan nhw'n gwneud yn siŵr ei bod hi'n cael ei chadw'n ddiogel.

## Dy hawliau am dy wybodaeth bersonol

- Os wyt ti am wybod pa wybodaeth bersonol sydd gennym ni, galli di, neu oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo, ofyn i ni am gopi.
- ·Os wyt ti am i ni gael gwared ar unrhyw wybodaeth bersonol rwyt ti wedi'i rhoi i ni, galli di, neu oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo, ofyn i ni wneud hynny.
- Galli di, neu oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo, siarad â ni unrhyw bryd os wyt ti'n gofidio ynghylch beth rydyn ni'n ei wneud gyda dy wybodaeth bersonol.

Estyn

# Sut i gwyno

Os wyt ti'n gofidio am sut rydyn ni'n defnyddio dy wybodaeth, galli di, neu oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo, anfon e-bost aton ni, ar ymholiadau@estyn.llyw.cymru neu ein ffonio ni ar 029 2044 6446.

Hefyd, galli di ffonio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 0303 123 1113 neu fynd i'w gwefan yn https://www.ico.org.uk i gael mwy o wybodaeth am dy hawliau.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd llawn ni ar gael yma: https://estyn.gov.wales/app/uploads/2024/10/Hysbysiad-Preifatrwydd-2024.pdf